



Mae Llanpumsaint yn bentref prydferth ar yr afon Gwili oddeutu chwe milltir i'r gogledd o Gaerfyrddin.

Mae gan y pentref orffennol hir a nodedig ac er na chafodd ei enwi nes y chweched ganrif, mae'r ardal wedi bod a phresonoldeb bobol ers o leiaf pedair mil a hanner o flynyddoedd fel gellir gweld wrth y rhif enfawr o feini hirion sydd yn yr ardal.

Cewch flas ar hanes yr ardal trwy gymeryd y daith gerdded o amgylch y pentref.

Y Daith Gerdded

Mae Taith Gerdded Treftadaeth Llanpumsaint, sydd yn dechrau o flaen Neuadd y Pentref yn filltir a hanner o hyd ac yn cymeryd tua awr o amser. Mae'r daith mwy neu lai ar dir gwastad gyda dim ond tipyn bach o godiad ger pont y rheilffordd. Mae'r brif daith ar heol darmac felly ni fydd eisiau esgidiau arbennig.

Estyniad Dewisol

Mae na gyfle tua hanner ffordd trwy'r daith gerdded i ymestyn y daith tu hwnt i'r pentref at yr ardal a elwir yn Ystum Gwili. Bydd hwn yn ychwanegu 3 milltir ac yn cynnwys taith i fyny tyle ac ar draws caeau felly argymhellir gwisgo esgidiau cadarn. Dylai yr estyniad ddewisol ychwanegu dwy awr arall at yr amser i gerdded y daith. Mae'r pwyntiau o ddiddordeb ar yr estyniad wedi ei nodi islaw mewn lliw **melyn**.

Pwyntiau o Ddiddordeb ar y Daith

1. Neuadd y Pentref
2. Penybont Fach - lle geni yr awdur 'Brutus'
3. Capel Methodist Bethel
4. Plac Coffa Jennie Eirian
5. Eglwys Llanpumsaint
6. Martha Llwyd
7. Ysgol Llanpumsaint

8. Melin Gwili
9. Cooper's Arms

Estyniad Dewisol Ystum Gwili
(ewch i 14 os nad ydych am gymeryd yr estyniad)

10. Pyllau Sanctaidd
11. Nebo
12. Ffordd Rhufeinig
13. Betws-Yr Eglwys Anghof

Ail-ymunwch a'r brif daith


14. Siop Pantycelyn a'r Cigydd
15. Caersalem
16. Clwtte Cochion
17. Pont y Rheilffordd, y Railway Arms a'r Iard
18. Ffatri Glanryrnys

Mae'r cyfarwyddiau mewn [lliw glas](#).

Arianwyd gan / Funded by



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Y DAITH GERDDED



1. Neuadd y Pentref

Cafodd Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri ei hadeiladu yn 1928 ar safle lle safodd caban pren yn gynt.

Daeth rhan o'r arian i adeiladu'r neuadd mewn rhodd o £500 yn ewyllys DR Evans, bachgen lleol a wnaeth ei ffortiwn trwy fasnach manwerthu yn Llundain, a rhan trwy gynnal carnifal a basar yn y Farmers Co-op pryd codwyd £370 mewn un diwrnod – cyfanswm enfawr yn y 1920au.

Cafodd tywod o'r afon Gwili a cherrig lleol o Gwmdwyfran eu defnyddio yn yr adeiladu. Fe gludwyd llechi o Gaernarfon a tunnell a hanner o hytrawstiau dur ar y tren hyd at y safle.

Cafodd y neuadd ei hagor yn swyddogol gan weddw DR Evans a cafodd portread ohonno ei hongian yn y neuadd.

Yn y 1940au diweddar a'r 1950au cynnar daeth y neuadd o dan ddylanwad y Parchedig Emlyn Lewis a'i wraig Decima Morgan Lewis. Cyflwynodd y ddau digwyddiadau drama a cherddoriaeth felly yn cyfoethogi bywyd diwyllianol y pentref, yn cynnwys eisteddfodau, rhai o rhain yn parhau am 12 awr! Terfyniad yr ymchwydd ddiwyllianol hwn oedd Cor y Merched yn cystadlu yn Eisteddfod Rhyngwladol Llangollen.

[Gyda Neuadd y Pentref y tu ol i chi, ewch i'r chwith a cherddwch heibio siop y pentref hyd at y cyffordd-T yna trowch i'r dde.](#)

[Cerddwch dros y bont a stopiwch am a pwynt nesaf o ddiddordeb. >>](#)



2. Penybont Fach - man geni yr awdur 'Brutus'

Yn union ar ol y bont tri bwa dros yr afon Gwili mae'r man ble saif y ty lle ganwyd David Owen (Brutus) yn 1794.

Crydd oedd ei dad ac efe oedd clochyd eglwys y plwyf lle y bedyddwyd David ar ddydd y Nadolig 1795. Mynychodd David yr ysgol yn yr un eglwys.

Yn ystod ei brentisiaeth i ddod yn feddyg yn Aberduar ger Llanybydder cafodd ei ddenu at achos y Bedyddwyr (roedd ei fam Rachel wedi perthyn iddynt) a penderfynnodd ei fod am ddod yn weinidog anghydfurfiol.

Priododd a setlodd yn Llangian, Llyn yng Ngogledd Cymru ac yr oedd yn ymddangos ei fod am fyw bywyd confensiynol hyd nes iddo yn anesboniadwy ysgrifennu at awdurdodau eglwysig Undodaidd yn Llundain yn cardota am gymorth ariannol yn ffug hawlio y bod ei gynulleidfa yn tynnu tuag at egwyddorion Undodaidd! Cafodd ei dwyll ei ddatgelu a cafodd ei ddiswyddo gan y Bedyddwyr.

Yn 1824 ysgrifennodd lythyr ddeifiol at 'Seren Gomer' papur cyfnodol poplogaidd yn ymosod ar yr iaith Gymraeg o dan yr ffugenw 'Brutus'. Glynodd yr enw!

Ceisiodd troi ei law yn golygu cylchgronnau amrywiol ac o'r diwedd yn llwyddo fel golygydd 'Yr Haul' a ddaeth yn lais cryf i'r eglwys sefydlog.

Bu yn olygydd ar 'Yr Haul' hyd ei farwolaeth yn 1866 yn lawnsio llawer ymosodiad ar yr eglwys anghydfurfiol. Cynhyrchiodd llawer o lyfrau ag erthyglau ar ddiwinyddiaeth a chrefydd, ond cofi'r ef yn bennaf am ei ddawn fel dychanwr.

Mae wedi ei gladdu yn Llywel yn Sir Frycheiniog.

[Gyda'r bont y tu ol i chi cadwch gerdded ar hyd yr heol heibio'r rhes o fythynnod ar y dde nes cyrraedd y capel. Dyma'r pwynt nesaf o ddiddordeb. >>](#)



3. Capel Methodist Bethel

Daeth Howell Harris, y Methodist enwog Cymraeg i Lanpumsaint tua 1740 a phregethodd y tu allan i'r eglwys. Efe oedd y person cyntaf i ddod a neges y Methodistiaid i'r ardal er doedd ei groeso ddim yn arbennig o gynnes. Datblygoedd ymraniad o fewn y Methodistiaeth rhwng cefnogwyr Howell Harris a Daniel Rowland a dylanwad yr olaf a ddarbwyllodd yn y pen draw yn y pentref.

I gyfaddasu'r addolwyr Methodistiaidd cafodd Bethel ei adeiladu yn 1827 a dengys y cyfrifiad crefyddol 1851 fod 250 o bobol wedi mynychu'r gwasanaeth hwyrol.

Roedd llawer o lwyddiant y capel i lawr i ddilynwyr y gof, Dafydd Llwyd, a'i wraig efrydd Martha. Hi cyfansoddodd llawer o'r emynau a ganwyd gydag awch ym Methel yn ystod y 19eg ganrif.

O achos y rhif enfawr o Fethodisiaid yn Llanpumsaint roedd yn angenrheidiol ail-adeiladu'r capel yn llwyr ac yn fwy o faint yn 1867 a roedd eu goruchafiaeth yn y cymuned yn parhau hyd yr 20fed ganrif.

[Parhewch i gerdded tuag at yr Eglwys, a stopiwch wrth Plac Coffa Jennie Eirian. Dyma'r pwynt nesaf o ddiddordeb. >>](#)

4. Plac Coffa Jennie Eirian

Roedd Jennie Llandre, fel yr oedd yn cael ei adnabod yn y pentref, yn athrawes, gwleidyddwraig, a golygydd cylchgrawn. Cafodd ei geni ar 6ed o Chwefror yn 1925 yn



Fferm Waunyrhelfa ar ymyl y pentref. Symudodd ei rhieni i Llandre yng nghanol y pentref pan oedd hi'n ddeg mlwydd oed.

Yn ysgol gynradd y pentref cafodd ei addysg cynnar ac yn hwyrach yn Ysgol Ramadeg y Frenhines Elisabeth yng Nghaerfyrddin. Tra'n cerdded y ddwy filltir i ddal bws yr ysgol, fe'i gwelwyd a llyfr yn un llaw, ac ar ddiwrnodau gwlyb gydag ymbarel yn y llaw arall. Enillodd ysgoloriaeth i astudio yn y Brifysgol yn Aberystwyth. Ar ol graddio dychwelodd i Gram Caerfyrddin ond y tro yma fel athrawes Gymraeg.

Cafodd ei dewis i gystadleuthu am sedd Caerfyrddin yn yr Etholiad Gyffredinol yn 1955 yn sefyll dros Plaid Cymru ac enillodd 7.78% o'r bleidlais. Ar farwolaeth yr Aelod Seneddol Syr Rhys Hopkin Morris yn 1957 cafodd eto ei dewis i sefyll dros Plaid yn yr Etholiad ganlyniadol, cynyddodd cyfran y bleidlais y tro yma i 11.5%. Bu y gwaith a wnaeth hi i sefydlu Plaid fel parti gwleidyddol cyfreithlon yn y sir yn gyfraniad i Gwynfor Evans gael ei ethol fel Aelod Seneddol cyntaf Plaid Cymru yn 1966.

Oedd hi yn Lywydd Cenedlaethol Merched y Wawr o 1978 hyd 1980 ac yn 1979 daeth yn olygydd 'Y Faner' hyd at ei marwolaeth anamserol yn 1982.

[Yr Eglwys sydd yn syth y tu ol i Plac Coffa Jennie Eirian yw'r pwynt nesaf o ddiddordeb. >>](#)



5. Eglwys Llanpumsaint

Mae pentref Llanpumsaint wedi cael ei enwi ar ol y pump sant Gwyn, Gwynno, Gwynoro, Ceitho a Celynin – brodyr a ddywedid mae nhw a adeiladodd yr eglwys Gristnogol gyntaf, ar y safle lle safai teml baganaidd gynt yn y 5ed neu 6ed ganrif.

Mae'n debyg mae'r arteffact hynaf o roesiol o fewn yr eglwys yw y top mensa carreg 10 troedfedd wrth 2.5 troedfedd a ddarganfyddwyd yn y fynwent yn ystod adferiadau yn 1882 ac y mae nawr wedi ei osod yn y llawr o dan y Bwrdd Cymun.

Gwrthrych hynafol arall a goroesiodd yw y garreg Ogam sydd ar ben ddeheuol y fynwent. Mae'r garreg wedi ei nodi a croes y tu fewn i gylch a mae'r arysgrifen sydd wedi cael ei nodi ar yr ymyl yn ymddygi tystiolaeth i'r ddylanwad Wyddelig ar y rhan yma o Gymru yn yr amser hwn.

Nid oes llawer o wybodaeth am hanes yr eglwys yn ystod y cyfnod canoloesol er mae'r basin bedyddfaen yn amseru o'r 13eg ganrif a mae cwpan cymun arian Elisabethaidd yn ymddygi y dyddiad 1574.

Mae'r ffenestr hollt yn y mur ogleddol yn dybygol o fod yn ffenestr y gwahanglwyfus fel y gallai dioddefwyr o'r clefyd heintus difrifol hwn fedru edrych i fewn i'r eglwys heb ddod mewn cyffyrddiad a mynychwyr arall yr eglwys.

Ymwelwyd yr eglwys yn 1710 gan yr archddiacon Tennison a cafodd ei nodi fod eisiau gwydro'r ffenestri, fod eisiau rendro'r muriau a fod llawr y gangell yn anwastad iawn!

Gwaith Mildred Eldridge gwraig y bardd enwog RS Thomas yw y ffenestr ddwyreiniol yn yr eglwys ac mae'n gofeb i'r Canon Joseph Lloyd a'i wraig Mary.

Meddylir fod y goeden ywen yn y fynwent o leuaf yn fil o flynyddoedd oed.

[Gyda mynediad y fynwent tu ol i chi, cerddwch yn syth ymlaen a Glanrafon y ty olaf ar y chwith yw'r pwynt nesaf o ddiddordeb. >>](#)



6. Martha Llwyd

Roedd Martha Llwyd yn gyfansoddwraig nodedig o lawer o emynau Cymraeg. Cafodd ei geni yn 1766 yn Fferm Nantbendigaid ar yr heol o Gynwyl Elfed i Lanpumsaint ond symudodd y teulu i Fferm Y Felin yn y pentref pan oedd yn blentyn.

Yn ol pob tebyg yr oedd wedi dysgu darllen yn un o Ysgolion Gruffydd Jones fu yn yr ardal ond am lawer o flynyddoedd ni fedrai ysgrifennu. Er gwaethaf hyn cyfansoddodd lawer o farddoniaeth ac emynau. Roedd yn cadw rhain ar gof ac yn eu dysgu i bobl eraill. Credir ei bod wedi cael rhyw faint o fedr ysgrifennu yn ddiweddarach yn ei bywyd.

Yn 1785 priododd y gof Dafydd Llwyd a setlodd y ddau yn y ty sydd yn ymddygi ei phlac coffa, Glanrafon. Roedd ganddynt naw o blant a credir fod y straen o godi teulu mor fawr wedi cymeryd doll ar ei hiechyd a daeth Martha yn efrydd.

Gwelwyd hi'n aml yn cael ei chludo o gylch y pentref mewn cadair arbennig yn enwedig ar Ddydd Sul pan oedd hi a'r teulu yn mynychu y Capel Methodistaidd, Bethel lle roedd ei hemynau yn cael eu canu a'i pobolgeiddio.

Marwodd Martha yn 1845 a mae wedi ei chladdu ynghyd a'i gwr yn y fynwent gyferbyn a'u ty o dan y goeden ywen. Mae eu carreg fedd yn cario fersiwn Saesneg eu henwau, sef David a Martha Lloyd.

[Gyda'r plac goffa tu ol i chi cerddwch yn syth yn eich blaen ac ar y chwith mae ysgol y pentref a dyma'r pwynt nesaf o ddiddordeb. >>](#)

7. Ysgol Llanpumsaint



Agorwyd drysiau ysgol Llanpumsaint am y tro cyntaf yn Ionawr 1863 i 73 o ddisgyblion wedi ei rhannu rhwng pedwar dosbarth. O fewn wythnos ar ol y newyddion i ledi roedd rhif y disgyblion wedi codi i 93.

Mae'r ysgol yn ddyledus am ei bodolaeth i'r bachgen lleol William Williams a godwyd ar fferm Tredarren ar ymyl y pentref. Symudodd i Lundain, gwnaeth ei ffortiwn a daeth yn Aelod Seneddol.

Addysg oedd un o'r achosion cofleidiodd yn y senedd ac hefyd yn ei fywyd y tu allan a dyna'r rheswm y gwnaeth rhodd o'r arian i godi adeilad yr ysgol a hefyd ty i'r prif feistr. Mynegodd fod addysg yn yr ysgol newydd yn cael ei ymddygi ar 'egwyddorion anenwadol cyfyng' fel bod plant o deuluoedd yr eglwys a'r capel yn medru manteisio ar gael addysg.

Cafodd yr adeilad sylweddol o garreg ei adeiladu yn gadarn ac yn wir mae'n dal i weini fel ysgol hyd heddiw.

Yn ystod Mis Mawrth 2013 dathlwyd penblwydd yr ysgol yn 150 mlwydd oed gyda dros 200 o gyn-ddisgyblion yn bresennol i ddathlu. Cafodd llyfr o atgofion ei gynhyrchu er mwyn coffau y digwyddiad.

[Cerddwch ymlaen gyda'r ysgol ar y chwith a'r pwynt nesaf o ddiddordeb yw Melin Gwili ar eich chwith. >>](#)



8. Melin Gwili

Melin Gwili oedd y felin wlan bu'n gweithredu hiraf yn Llanpumsaint o tua 1875 hyd ei cau yn 1968. Gan ddefnyddio llif cyflym yr afon Gwili fel ffynnonhell ei phwer, roedd y felin yn cynhyrchu nwyddau i farchnadoedd, ffeiriau, manau diwydiannol a chyfanwerthwyr.

Mor ddiweddar a 1947 roedd TW Jones a'i feibion o Gorseinon yn cyflogi o leuaf 12 o bobl yma yn gwneud gwlanen, cartheni a tweed.

Yn y 1920au pan fu cwmpas mawr am y galw am y cynnyrch gwlan oedd y felin yn cynnyrchu, goroesodd y felin yn wahanol i lawer o'r cystadleuwyr oherwydd rhagweliad y perchnogion, James a James Owen am eu bod wedi gwario'r arian i ddiweddarau y peiriannau i wneud y felin yn fwy gystadleuol.

Pan gafodd y felin ei chau yn 1968, roedd swm rhythmig y peiriannau a'r aroglau cryf yn yr awyr dros iard yr ysgol wedi mynd am byth.

[Wedi troi o gwmpas cerddwch yn ol at cyffordd yr heol. Cymerwch yr heol ar y chwith fel eich bod yn mynd heibio'r eglwys ar eich ochr dde yna cerddwch am tua chwarter milltir nes cyrraedd y cyffordd-T. Mae'r pwynt nesaf o ddiddordeb, Y Cooper's Arms yn syth o'ch blaen ar draws y cyffordd. >>](#)



9. Cooper's Arms

Roedd yr adeilad a ddaeth if fod yn 'Y Cooper's Arms' yn wreiddiol yn weithdy i'r Cowper oedd yn gwneud olwynion i geirt y ffermwyr lleol.

Yn 1863 prynnodd William Griffiths Fferm Bwlchtrap lle roedd yn byw ar y pryd, ynghyd a'r Coopers Arms mewn arwerthiant ystad.

Roedd yn amlwg wedi syrthio ar ei draed gan yn 1841 gwas fferm ydoedd. Meddylir ei fod wedi etifeddu peth arian ac yn yr 1860au fe wnaeth ef a'i wraig Mary ymneilltuo wrth ffermio i rhedeg y 'Troedyrhiw Arms' fel ail-enwyd y tafarn.

Roedd y tafarn bach un amser yn bwynt canolbwyntiol ar y groesffordd brysur ond methu wnaeth y busnes yn y 1930au. Pan marwodd Rachel Rees y wraig dafarn olaf yn 1932 cafodd y tafarn ei gau a'i droi yn gartref preifat.

Ewch ar y daith estyniadol i fyny'r tyle tuag at Ystum Gwili.

Gyda'r Cooper's Arms o'ch blaen ar draws y cyffordd, ewch i'r chwith i fyny'r tyle allan o'r pentref a parhewch i gerdded am tua 400 llath nes dod at y ty ar y chwith o'r enw Gwarcwm. Yn union ar ol y ty hwn yn y ceunant coediog mae'r lle gorau i weld y Pyllau Sanctaidd, y pwynt nesaf o ddiddordeb. >>

NEU

Parhewch ar yr heol i siop Pantycelyn.

Rhaid troi i'r dde ar y groesffordd a parhau ar yr heol am tua 400 llath. Byddwch yn mynd heibio heol ar y dde, mae'r pwynt nesaf o ddiddordeb yn union ar ol hyn ar y dde. >>



10. Y Pyllau Sanctaidd

Wedi eu cuddio yn y dyffryn ag ochrau serth ar yr afon Cerwyn mae pump pwll. Yn ol traddodiad roedd y pyllau yn cael eu defnyddio i ymdrochi gan y pump sant a rhoddodd yr enw i Lanpumsaint.

Dywedir fod pwerau iachau gyda'r dwr yma a roedd y pyllau yn cael eu defnyddio gan y derwyddion a'r Cristnogion cynnar i ddibenion seremonial.

Hyd yn oed mor hwyr a'r 17eg ganrif byddai bobl yn heidio i'r pyllau ar ddiwrnod Sant Pedr, ar y 21ain o Fehefin am rhyddhad a iachad. Enillodd hyn yr enw 'Lourdes Sir Gaerfyrddin' i'r ardal.

Mae'r ardal nawr wedi cael ei esgeuluso a braidd wedi cael ei anghofio, ond am dros mil o flynyddoedd roedd yn safle bwysig pererindod i'r ffyddloniaid.

Cerddwch ymlaen i fyny'r tyle am tua hanner milltir a troi i'r dde ger yr arwydd am Nebo.

Hen enw'r cyffordd yma yw Cnwcy Pistyll - man cyfarfod poblogaidd i ieuencyd yr ardal fin nos nes i ddulliau trafndiaeth yr ail hanner o'r ugeinfed ganrif eu galluogi i deithio'n llawer pellach o'i cynefin.

Parhewch i gerdded am hanner milltir arall nes i chi gyrraedd capel Nebo ar eich chwith. >>



11. Nebo

Pan gafodd Capel Nebo ei adeiladu yn 1840 dyma'r lle cyntaf addoli yn ardal Ystum Gwili ers i Eglwys Bettws i ddisgyn i anarferwch.

Moses Rees o Bencader oedd y gweinidog rhan amser cyntaf ac er fod y capel yn cael ei ddefnyddio yn gyson ac wedi cael adgyfeiriad yn yr 1880au, ni chafodd y capel weinidog llawn amser hyd Henry Evans yn 1897. Fe arosodd ef yn y swydd am 23 o flynyddoedd tan ei farwolaeth yn 1920.

Y gweinidog gyda'r gwasanaeth hiraf oedd y gweinidog poblogaidd WJ Evans a fu yma o 1945 hyd 1976.

Mae'r term 'Ystum Gwili' sydd yn cyfeiro at ffurf penelin yr afon Gwili yn yr ardal yn cael ei ddefnyddio lawer llai nawr a mae'r ardal i gyd yn cael ei adnabod yn fwy aml fel 'Nebo,' ar ol y capel.

Y pwynt nesaf o ddiddordeb yw'r ffordd Rhufeinig ar y chwith ar ol Nebo. >>

12. Y Ffordd Rhufeinig

Saif Nebo nesaf i'r pwynt hanner ffordd ar yr heol Rhufeinig a rhed o Bronwydd i Lanpumsaint. Mae'r Ffordd Rhufeinig yn dod allan ar y brif heol yn Troedyrhiw nesaf at y Coopers Arms.

Mor hwyr a'r 1950au roedd y Ffordd Rhufeinig yn cael ei defnyddio yn gyson gyda ceirt fferm yn y ddau gyfeiriad yn mynd naill at gorsaf y rheilffordd yn Bronwydd neu'r rheilffordd a'r Farmers Co-op yn Lanpumsaint.

Cadwch gerdded ar hyd yr heol am tua 400 llath nes cyrraeddwch mynedfa Fferm Bettws. Ewch i'r chwith nes cyrraedd y sied fferm a dyma'r pwynt nesaf o ddiddordeb. >>



13. Bettws - Yr Eglwys Anghof

Eglwys fach oedd Bettws yn ardal Ystum Gwili sydd nawr wedi diflannu mewn niwloedd amser.

Roedd yn gorwedd i'r gogledd o Fferm Bettws yn eistedd ar draws y lon sy'n arwain i lawr at y fferm ac yn cymeryd i fyny rhan o dau gae. Mae llun a dynwyd yn 1946 o'r awyr yn dangos ffurf twmpath pendant yn agos i'r lle saif y siediau fferm presennol.

Oddeutu 1800 pan oedd cae Lampengaer yn cael ei aredig, cafodd cawg dwr sanctaidd ei ddarganfod a'i ddwyn i fferm Llwyncroes lle arosodd nes cael ei achub yn y 1970au gan Byron Davies, ficer Eglwys Llanpumsaint ar y pryd. Mae'r cawg wedi cadw yn berffaith ac yn ymddygi pedwar mowldin ar y tu allan. Gellir ei weld nawr yn y cyntedd i Eglwys Llanpumsaint.

Ewch yn eich ol at cyffordd yr heol gyferbyn a'r Ffordd Rhufeinig ac ewch i'r chwith. Ar ol hanner milltir ewch i'r tro cyntaf ar y dde. Parhewch heibio mynediad Fferm Pantyfedwen (lle ganwyd Timothy Davies yn 1857, ef a ddaeth yn Aelod Seneddol Rhydfrydig dros Fulham) nes cyrraedd yr arwydd llwybr cyhoeddus ar y chwith. Dilynwch y llwybr drwy'r caeau nes dod allan ger y Coopers Arms.

Unwaith byddwch wedi ail-ymuno a'r brif heol ewch i'r chwith a cadwch fynd ar yr heol am tua 400 llath. Byddwch yn mynd heibio troad ar y dde a mae'r pwynt nesaf o ddiddordeb yn syth ar ol hyn ar y dde. >>

14. Siop Pantycelyn a'r Cigydd

Rhedodd David Evans cigydd a groser lleoll fusnes yn Glannant ar gyhirion Llanpumsaint. Wedi dod yn llwyddianus neidiodd at y cyfle i brynu Pantycelyn, ty moethus yng nghanol y pentref pan ddaeth ar y farchnad yn 1890.

Talodd £1250 am y ty ac yna fe ddaeth nid yn unig ei gartref ond hefyd yn adeilad ei fusnes. Rhedodd lladd-dy, siop groser a lle i brynu bwyd anifeiliaid o Bantycelyn yn llwyddianus iawn am y 50 blynedd nesaf. Gyrrwyd moch a defaid yn gyson i lawr yr heol o iard yr orsaf i'r lladd-dy.



Daeth y siop yn dipyn o ganolbwynt cymdeithasol yn y pentref a roedd bobl ifanc yn ymgaslu yn y nos i chwarae draffts neu dominos ac i gael eu bwyda gan fod y siop yn aros ar agor tan ganol nos.

Mab David Evans (a enwir David hefyd) oedd un o'r bobl cyntaf yn yr ardal i fod yn berchen cerbyd a lori ac yn achosi llawer o syndod ymysg y bobl lleol!

[Cerddwch ymlaen ar hyd yr heol a gwelwch Caersalem y pwynt nesaf o ddiddordeb ar y dde. >>](#)



15. Caersalem

Ar ddechrau'r 20fed ganrif penderfynnodd aelodau Capel Ffynnonhenri oedd y tu allan i'r pentref, y byddai'n ddoeth i gael lle yn agosach i gannol y pentref i gynnal Ysgol Sul neu colli presenoldeb plant y pentref i'r capeli oedd mewn lleoliad mwy cyfleus.

Felly yn 1907, cafodd Caersalem ei hadeiladu ac yn y degawdau canlynol aeth o nerth i nerth gan gynnig i'r pentrefwyr gymysgedd o wasanaethau crefyddol, canu cymdeithasol ac eisteddfodau.

Mae Benjamin Davies, yr unig filwr lleol cafodd ei ladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf wedi cael ei gladdu ym mynwent Caersalem.

[Parhewch i gerdded ar hyd yr heol a stopiwch yn union cyn pont y rheilffordd. Mae mynediad Clwtte Cochion y pwynt nesaf o ddiddordeb ar y dde. >>](#)



16. Clwtte Cochion

Clwtte Cochion yw un o'r ffermydd hynaf yn yr ardal. Mae'r Crynodeb Teitl sydd yn bodoli yn dangos y fferm yn eiddo i'r Arglwydd Vaughan, Iarll Carberry ag Ysg. Henry Peck yn 1658.

Yn 1834 fe wnaeth William Henry Powell, ficer Llanpumsaint ers 1823, brynnu rhai caeau oddiwrth Caroline Griffiths Williams, gweddw Erasmus Griffiths Williams.

Ar y tir a brynnodd, adeiladodd William Henry Powell y ty, Pantycelyn a werthwyd yn 1890 i David Evans a ddaeth yn siop y cigydd.

[Ewch ymlaen o dan pont y rheilffordd at y pwynt nesaf o ddiddordeb. >>](#)



17. Pont y Rheilffordd, y Railway Arms ac Iard y Rheilffordd

Pan gyrraeddodd y rheilffordd yn 1864 trawsnewidwyd bywyd pobl Llanpumsaint. Hyd yn oed cyn i'r rheilffordd agored roedd y gwaith adeiladu wedi dod a iachadwriaeth o dloidi i lawer o bobl.

Roedd cerdded i Gaerfyrddin yn cymeryd tair awr flinedig ond nawr ar y tren roedd mewn cyrraedd cysurus o fewn 40 munud. Ond y newid mwyaf sylweddol oedd fod y rheilffordd yn hwyluso sefydlu ffatriodd gwlan.

Roedd y cyfuniad o lif cyflym yr afonydd yn darparu ffynonhell o ynni, y deunydd crai oedd ar gael a'r llafur rhad yn cyfuno gyda mynediad hawdd i farchnad proffidiol De Cymru ag oedd y rheilffordd yn caniatáu, yn gwneud i'r diwydiant gwlan ffynnu.

Fe gymerodd Thomas Evans, yr Orsaf Feistr cyntaf, ofal yn 1865 a bu yn y swydd tan ymddeuol yn 1901. Ef oedd adeiladydd a pherchennog y Railway Inn ond roedd Great Western yn anhapus am fod un o'i Arolygwyr Gorsaf yn rhedeg tafarn felly enw ei fab-yng-nghyfraith Evan oedd uwchben y drws. Ni barodd y trefniant yn hir am fod Ada, gwraig Evan yn amharod i fod yn wraig tafarn a cafodd y tafarn ei gymeryd drosodd gan Bragdy Buckley.

Ar draws yr heol o'r tafarn a nesaf at y linell rheilffordd mae hen iard yr orsaf ac adeilad y Farmer's Co-op. Roedd glo, calch a nwyddau amaethyddol yn dod i fewn a basgedi a brethyn a gynhyrchwyd yn y pentref yn mynd allan.

Agorodd Cymdeithas Ffermwyr Co-op Caerfyrddin, a sefydlwyd yn 1903, ei saithfed cangen yn Llanpumsaint yn 1928. Roedd bwyd anifeiliaid, blawd a nwyddau amaethyddol yn cael eu derbyn ar y rheilffordd ac yn cael eu dadlwytho ar unwaith i adeilad sgleiniog newydd y Co-op. Roedd dosbarthu nwyddau ar y rheilffordd mor effeithlon fe wnaeth prisiau cynnyrch y Co-op cael eu gostwng a bu rhaid i Bantycelyn, a fu hyd hyn yr unig siop yn gwerthu cyflenwadau fferm yn yr ardal, ostwng eu prisiau nhw yn unol yr un fath.

Yn 1966 bu Gwynfor Evans, yr Aelod Seneddol Plaid Cymru dros Caerfyrddin ag oedd newydd ei ethol, yn ceisio'n daer i herio penderfyniad y llywodraeth i gau y llinell rheilffordd o Gaerfyrddin i Aberystwyth (fel rhan o dorriadau Beeching) ond bu yn aflwyddiannus. Yn yr un flwyddyn cafodd y Co-op ei gau.

[Ar ol pont y rheilffordd ewch i'r chwith a gyda'r Railway Inn ar y dde cerddwch ar hyd yr heol am tua chwarter milltir a fe welwch ffatri Glanrymys, y pwynt nesaf o ddiddordeb, ar y chwith yn union cyn y bont fach. >>](#)



18. Ffatri Glanyrynys

Pan sylweddolodd Thomas Lewis y potensial o gludo nwyddau gorffenedig oedd y rheilffordd yn ei gynnig, sefydlodd Ffatri Wlan Glanyrafon yn 1886 chwarter milltir o'r orsaf.

Mae cyfrifiad 1891 yn dangos 8 o weithwyr yn byw i fewn yn yr adeilad yn Glanyrynys yn cynnwys 'carders', golchwyr gwlan, 'warpers' a gwehyddion.

Gwnaeth Thomas Lewis ymweliadau aml a ffeiriau De Cymru mor bell ag Aberdar a Threorchy, yn canfasio am archebau am ei grysiau a blancedi gwlan. Bu y Rhyfel Byd Cyntaf a'r galw canlyniadol am wisgoedd wedi rhoi hwb i'r busnes.

Sut bynnag yn y 1920au ar ol ddiwedd y rhyfel a ffashiynau'n newid roedd y galwad am gynnyrch gwlan wedi sychu a daeth cynhyrchu i ben yn Glanyrafon ar ddiwedd y ddegawd.

Yn 1939 defnyddiodd y Weinidogaeth Fwyd yr adeiladau i gadw bwyd anifeiliaid a blawd a defnyddiodd Cow and Gate y lle i gadw llaeth sych am saith mlynedd ar ol diwedd yr Ail Rhyfel Byd ac ar ol hyn cafodd yr adeilad ei drosi i fflatiau.

Bu farw Thomas Lewis yn 1947 yn 84 mlwydd oed a mae wedi ei gladdu ym mynwent Caersalem.

[Ewch yn eich ol a cherddwch yn ol at y cyffordd ger y Railway Arms. Trowch i'r dde a cherddwch o dan pont y rheilffordd ac heibio Caersalem. Cymmerwch y chwith nesaf, cerddwch am tua 400m a gwelwch y pwynt dechrau a dibennu y daith, Neuadd y Pentref, ar y chwith.](#)